YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 1983

*Ceisiadau sy'n ymwneud â'r ffi llain*

**59.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraffau 16(b), 17(4) ac 17(8) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (y ffi llain).

(2) Y ddogfen benodedig yw'r hysbysiad a gyflwynwyd i'r meddiannydd gan berchennog y safle o dan baragraff 17(2) o Bennod 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno (pa un a'i cyflwynwyd erbyn yr amser sy'n ofynnol o dan y paragraff hwnnw ai peidio).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw—

(a) os y ceisydd yw perchennog y safle, y meddiannydd; a

(b) os y ceisydd yw'r meddiannydd, perchennog y safle.